Menter Gymunedol Llanuwchllyn: Polisi Iaith

Cyffredinol
Mae Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn cydnabod arwyddocâd a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg i fywyd Llanuwchllyn ac i fywydau beunyddiol y trigolion. Mae'n cydnabod fod yr iaith Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu cymdeithasol, gweinyddol ac economaidd creiddiol yn y gymuned ac mae'r Fenter yn datgan ei chefnogaeth i ymdrechion i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd Llanuwchllyn.

Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu'r Fenter. Mae Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn gweld yr iaith Gymraeg fel nodwedd ganolog ac allweddol o'i hunaniaeth ei hun ac yn cydnabod y gwerth ymarferol ac economaidd o gynnal yr hunaniaeth Gymraeg honno i'r dyfodol.

Darparu gwasanaethau
Darperir gwasanaethau Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn y Gymraeg yn bennaf. Mewn achosion lle bo gwasanaethau'r Fenter wedi eu hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol neu at gynulleidfa ddwyieithog benodol, darperir y gwasanaethau perthnasol yn ddwyieithog, gan gynnal yr un safonau yn y ddwy iaith fel ei gilydd. Rhoddir blaenoriaeth i'r Gymraeg o fewn pob trefniant dwyieithog. Darperir gwasanaethau i unigolion ar sail eu dewis iaith unigol fel y bo'n briodol.

Wyneb Cyhoeddus y Fenter
Adlewyrchir hunaniaeth Gymraeg y Fenter mewn atebion ffôn cychwynnol, arwyddion, deunydd argraffedig, ffurflenni a deunydd esboniadol, deunydd cyhoeddusrwydd, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff arferol y Fenter.

Canllawiau Staff, Gwirfoddolwyr a Chynrychiolwyr.
Mae Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Bydd gohebiaeth ag unigolion yn cael ei anfon yn newis iaith yr unigolyn. Bydd iaith gohebiaeth yn dilyn iaith y cyswllt gwreiddiol oni nodwyd yn wahanol gan yr unigolyn. Bydd pob gohebiaeth gyffredinol a anelir at gyhoedd Cymraeg arferol y Cwmni – cylchlythyron, llythyrau safonol, anfonebau, gohebiaeth hysbysu ac ati – yn cael ei hanfon yn Gymraeg, oni bai eu bod wedi eu hanelu at gynulleidfa ddwyieithog benodol. Disgwylir i staff, gwirfoddolwyr a chynrychiolwyr fedru siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg i lefel sy'n gydnaws â dyletswyddau eu swyddi.

Cyfathrebu â'r cyhoedd
Bydd angen i unrhyw berson sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd o safle Menter Gymunedol Llanuwchllyn allu gwneud hynny yn y Gymraeg.

Monitro a gwerthuso
Bydd Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn monitro ac yn gwerthuso gweithrediad y polisi hwn yn rheolaidd.

Arwyddwyd ar ran y Fenter:



Grisial Llewelyn (Cadeirydd)

Dyddiad: 7 Gorffennaf 2023